# P-04-456: Dementia - Gallai hyn ddigwydd i chi

Geiriad y ddeiseb:

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru:

i. I roi terfyn ar wahaniaethu yn erbyn dioddefwyr dementia yng Nghymru sy□n gwneud cais am Arian Gofal Parhaus y GIG, drwy ganiatáu i□r categori gwybyddiaeth o angen (a elwir yn □barth□) godi i lefel □Difrifol□ yn y fersiwn Gymraeg o□r Offeryn Gwneud Penderfyniadau. Byddai hyn yn ei gwneud yn gydnaws â□r fersiwn Saesneg; a

ii. Bod Byrddau Iechyd Lleol uniongyrchol yn gweithredu□r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Arian Gofal Parhaus y GIG, yn gywir, o ran cymhwysedd cleifion a heb ystyried cyfyngiadau cyllidebol.

Prif ddeisebydd: Helen Jones

Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 19 Chwefror 2013

Nifer y llofnodion: 1413